WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 676A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Matthew Coe, Andrew Davies, Anthony Ford, Jeremy Saunders, Gabrielle Smith a David Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ac wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb yn gyson | 11 |
| Yn gyffredinol, mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ym maes llywodraethu a sicrwydd bwrdd ond mae gwaith i'w wneud o hyd i atgyfnerthu rhai rhannau o'r fframwaith llywodraethu, casglu mwy o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a datblygu'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach | 12 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i wneud gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd | 16 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 18 |
| Ffi archwilio | 19 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr 2013. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk)).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny.
7. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13, a chofnododd warged bach ar ôl cyflawni arbedion cost rhagamcanol o £2.3 miliwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ac wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb yn gyson

**10.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio dulliau rheoli ariannol cadarn a chaiff gwaith cynllunio strategol ei ategu'n fwy effeithiol gan wybodaeth ariannol a gwybodaeth am y gweithlu. Mae dull rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth wedi'i ymsefydlu ar lefel cyfarwyddiaeth gyda chyfarwyddiaethau yn gyfrifol am fantoli'r gyllideb ac arbed costau. Caiff cyllidebau ac arbedion eu monitro'n rheolaidd ar lefel cyfarwyddiaeth ac ar lefel bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2013-14 gan arbed £1.3 miliwn, y mae £1.1 miliwn ohono'n gylchol.

### Yn gyffredinol, mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ym maes llywodraethu a sicrwydd bwrdd ond mae gwaith i'w wneud o hyd i atgyfnerthu rhai rhannau o'r fframwaith llywodraethu, casglu mwy o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a datblygu'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach

**11.** Nododd fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth y canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r materion o ran rheolaeth fewnol a sicrwydd bwrdd a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol er bod angen atgyfnerthu rhai rhannau o'r fframwaith llywodraethu o hyd;
- mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a staff a gweithredu ar sail yr adborth hwn, ond mae'n cydnabod nad oes ganddi ddigon o wybodaeth am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau;
- mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn chwarae rôl graffu effeithiol fel rhan o fframwaith sicrwydd yr Ymddiriedolaeth ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth nawr atgyfnerthu ei dull o nodi risgiau is-adrannol a datblygu'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cyfleoedd i wneud gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd

**12.** Roedd canfyddiadau allweddol fy adolygiad o ddefnydd yr Ymddiriedolaeth o adnoddau fel a ganlyn:

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i wneud cynnydd da o ran y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn Asesiadau Strwythuredig blynyddoedd blaenorol;
- mae fy adolygiadau o'r trefniadau rheoli yn yr is-adrannau sgrinio a microbioleg wedi canfod bod nifer o feysydd y gellid eu gwella.

**13.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**14.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.

**15.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**16.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**17.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**18.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**19.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**20.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2012-13. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**21.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar ba un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw. Wrth lunio'r farn hon, ystyriais p'un a oedd y datganiadau ariannol:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon.

**22.** Mae'n ofynnol i mi hefyd roi barn ar y canlynol:

- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;

**23.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**24.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
- y systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol.

**25.** Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwella ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd i ni'n amserol. Yn gyffredinol roedd y cyfrifon drafft o ansawdd uchel ac ni fu'n rhaid gwneud cymaint o addasiadau iddynt o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**26.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn

archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 6 Mehefin 2013. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau a nodwyd | Nodwyd nad oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd a bod yr holl gamddatganiadau a gywirwyd wedi'u crynhoi er sylw'r Pwyllgor Archwilio. |
| Pryderon am yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol | Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw bryderon o'r fath. |
| Anawsterau sylweddol y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr archwiliad | Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. |
| Materion sylweddol y gwnaethom eu trafod â rheolwyr a gohebu â rheolwyr yn eu cylch y mae angen i ni hysbysu'r Ymddiriedolaeth amdanynt | Nid oedd unrhyw faterion o'r fath i'w nodi. |
| Unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol yr oedd angen i ni hysbysu'r Ymddiriedolaeth amdanynt. |
| Gwendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion eraill | Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethu eraill. |

**27.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2013 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**28.** Adolygais amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys monitro rheolaethau, prosesau asesu risg a systemau gwybodaeth a gweithgareddau rheoli cysylltiedig. Nododd fy adolygiad fod yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn gosod sail ddibynadwy i baratoi'r datganiadau ariannol ac, yn sgil hyn, câi problemau posibl eu trafod yn gynnar yn y broses archwilio a gwnaed llai o gywiriadau i'r datganiadau ariannol.

**29.** Ystyriais hefyd waith archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio wrth iddo oruchwylio'r prosesau adrodd ariannol. Nododd fy adolygiad i'r gwaith archwilio mewnol gydymffurfio â'r safonau archwilio mewnol perthnasol ar gyfer y GIG yng Nghymru a bod rhai meysydd pwysig y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Mabwysiadwyd y Siarter Archwilio Mewnol newydd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a chynlluniwyd datblygiadau eraill sydd eisoes ar waith a fydd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol, ar gyfer Cymru gyfan.

**30.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'r gwaith hwn yn gyfystyr ag asesiad o'r trefniadau archwilio mewnol o dan Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o drefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'r asesiad hwn yn ehangach na'r gwaith y mae archwilwyr allanol yn ei wneud er mwyn dibynnu ar waith archwilio mewnol neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**31.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Tynnwyd sylw'r rheolwyr at rai mân wendidau.

## Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ôl cofnodi arbedion o £2.3 miliwn

**32.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged a gedwir yn ôl o tua £10,000 yn unol â'r rhagolwg y caiff y gyllideb ei mantoli. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, nododd yr Ymddiriedolaeth fwlch ariannu o £2.3 miliwn a'i bwriad oedd cau'r bwlch hwnnw drwy raglen arbed costau. Câi'r arbedion eu cofnodi'n rheolaidd fel rhan o broses adrodd ariannol misol yr Ymddiriedolaeth a'u monitro'n fanwl bob chwarter.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**33.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o fantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig, gan roi pwyslais penodol ar lywodraethu o ansawdd a chadernid trefniadau i wella profiadau defnyddwyr gwasanaethau
- asesu cynnydd yn erbyn meysydd i'w datblygu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â chadarnhau p'un a oes rheolaethau allweddol ar waith mewn perthynas â data wrth gefn;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli gyda'r Is-adrannau Sgrinio a Gwasanaethau Microbioleg.

**34.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ac wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb yn gyson

**35.** Yn 2012-13, cofnododd strategaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth fwlch ariannol o tua £2.3 miliwn. Er mwyn cau'r bwlch hwn, lluniodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o egwyddorion ariannol i'w mabwysiadu gan bob cyfarwyddiaeth. Roedd hyn yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd o ryw 1.5 y cant o wariant ac 0.8 i un y cant o fuddsoddiad arfaethedig yn flynyddol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Cytunodd pob cyfarwyddiaeth â'r egwyddorion ariannol gan atgyfnerthu atebolrwydd a chyfrifoldebau deiliaid cyllidebau am reoli eu cyllidebau a chymryd camau pendant pan fo pwysau ariannol yn codi. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi mantoli'r gyllideb yn 2012-13 gan gofnodi gwarged bach o £10,000.

**36.** Mae cynllun realistig i fantoli'r gyllideb yn 2013-14, a ategir gan gynlluniau gwella costau realistig. Un o brif nodweddion y cynlluniau hyn yw'r lefel uchel o arbedion cylchol sy'n werth tua £1.1 miliwn o'r cyfanswm o £1.3 miliwn o arbedion a nodwyd yn strategaeth ariannol 2013-14. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau atebolrwydd am gyflawni arbedion a rhoddir adroddiadau ar gynnydd o ran arbedion i'r

Bwrdd bob chwarter. Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar sut y caiff yr arbedion arfaethedig ar gyfer pob cynllun penodol eu cyflawni a pha gamau a gaiff eu cymryd os na cheir cymaint o arbedion ag y cynlluniwyd.

**37.** Amcangyfrifodd strategaeth ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth mai tua £8 miliwn fyddai'r pwysau ariannol tymor canolig dros y tair blynedd o 2012-13 i 2014-15. Er bod y swm hwn yn parhau i fod yn her ariannol sylweddol, mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o gyflawni ei harbedion, gan gynnwys lefelau uchel o arbedion cylchol. Mae wedi rhoi prosesau cynllunio a monitro ariannol cadarn ar waith sy'n hanfodol er mwyn ateb yr her ariannol hon.

**38.** Mae trefniadau cadarn ar waith i ddyrannu a monitro cyllidebau, gan gynnwys trefniadau monitro cyllidebau misol o fewn cyfarwyddiaethau ac adroddiadau Bwrdd bob deufis. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i graffu ar gyllidebau er mwyn ategu'r gwaith adolygu a herio rheolaidd sy'n digwydd o fewn cyfarwyddiaethau a thrwy'r tîm gweithredol. Mae adroddiad Monitro Ariannol diweddaraf yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar gyfer 2013-14 ar sail cyfanswm gwariant o ryw £103 miliwn.

**39.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gall pwysau gweithredol effeithio ar bryd y caiff arbedion eu cyflawni ac mae ganddi systemau priodol ar waith i sicrhau bod y cynlluniau gwella costau ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan yn cael eu cyflawni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gweithgareddau gweithredol yn llywio'r gyllideb ac nid i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y strategaeth ariannol yn realistig ac yn ymarferol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn o gofio ei bwysigrwydd i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

## Yn gyffredinol, mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ym maes llywodraethu a sicrwydd bwrdd ond mae gwaith i'w wneud o hyd i atgyfnerthu rhai rhannau o'r fframwaith llywodraethu, casglu mwy o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a datblygu'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r materion o ran rheolaeth fewnol a sicrwydd bwrdd a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol er bod angen atgyfnerthu rhai rhannau o'r fframwaith llywodraethu o hyd

**40.** Nododd asesiadau strwythuredig blaenorol fod angen i'r Ymddiriedolaeth lunio system sicrwydd bwrdd gydlynol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol ac adolygu anghenion o ran gwybodaeth am fod bylchau yn y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Gwnaed cynnydd da i fynd i'r afael â'r heriau hyn, i'r graddau bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ym maes llywodraethu a sicrwydd bwrdd ar y cyfan.

**41.** Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth ei gwaith ar y fframwaith sicrwydd bwrdd, a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi, ac mae aelodau'r bwrdd yn fodlon ar y trefniadau sicrwydd hyn ar y cyfan. Mae aelodau'r Bwrdd yn hyderus bod y Bwrdd yn chwarae ei rôl yn effeithiol ond bu lle gwag ar y bwrdd am aelod anweithredol ers cryn

amser. Mae hyn yn golygu bod yr aelodau anweithredol presennol o dan bwysau cynyddol ac ni fydd y sefyllfa hon yn gynaliadwy yn y dyfodol.

**42.** Er bod swydd prif weithredwr yr Ymddiriedolaeth yn wag ar hyn o bryd, mae trefniadau pendant ar waith i sicrhau parhad y busnes. Y tu hwnt i hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei strwythurau sefydliadol er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol gyda phenodiadau lefel uwch diweddar i Gyfarwyddiaeth Datblygu Iechyd y Cyhoedd a phenodi Cyfarwyddwr Nyrsio i'r tîm gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ailstrwythuro'r tîm adnoddau dynol a datblygu sefydliadol bach, sy'n sicrhau bod cymorth strategol a gweithredol pwrpasol ar gael i bob Is-adran.

**43.** Mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd yn gwella ac mae aelodau'r bwrdd yn hyderus bod y wybodaeth hon yn cefnogi gwaith craffu effeithiol. Mae diben y papurau a gyflwynir i'r Bwrdd yn gliriach. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Fframwaith Ansawdd a Chyflawni sy'n cynnwys cymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol i asesu perfformiad mewnol ac allanol yn erbyn amcanion strategol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau perfformiad priodol os nad ydynt ar gael ar hyn o bryd neu os nad adroddir arnynt yn rheolaidd.

**44.** Mae angen gwella rheolaethau mewnol mewn perthynas â hyfforddiant statudol a gorfodol. Ychydig o welliant amlwg a welwyd o ran cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn barod i gydnabod hyn. Ni chynhaliwyd yr archwiliad sylfaenol i bennu cyfraddau cydymffurfiaeth 'gwirioneddol' oherwydd cyflwynwyd fframwaith sgiliau craidd y DU gyfan, sy'n cael ei ddefnyddio nawr i fapio staff i'r lefelau gwahanol o hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Caiff trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol eu hadolygu'n barhaus gan y gwasanaeth archwilio mewnol a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**45.** Nododd ein gwaith ar drefniadau llywodraethu gwybodaeth mai dim ond yn rhannol y mae rheolaethau disgwyliedig o ran data wrth gefn ar waith. Ni chytunwyd yn ffurfiol eto ar bolisïau drafft yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cadw data wrth gefn ac adfer data ac mae rhai cynlluniau a gweithdrefnau ar gyfer systemau unigol wedi dyddio. Er bod trefniadau ar waith o ran data wrth gefn, mae cynlluniau'n cael eu datblygu o hyd i storio data wrth gefn oddi ar y safle ac mae trefniadau i fonitro data wrth gefn yn amrywio gydag ymarferion adfer prawf yn cael eu cynnal yn ad hoc heb fod yn rhan o'r amserlen brofi ffurfiol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a staff a gweithredu ar sail yr adborth hwn, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad oes ganddi ddigon o wybodaeth am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau

**46.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod bylchau yn y wybodaeth am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau er mwyn helpu i wella a llywio gwasanaethau. Ar hyn o bryd, caiff profiadau defnyddwyr eu diffinio'n bennaf gan nifer y cwynion a digwyddiadau a dderbynnir gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n mapio'r dulliau gwahanol y mae'n eu defnyddio i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, boed yn ddefnyddwyr gwasanaeth unigol neu'n sefydliadau. Mae gan

rai rhannau o'r Ymddiriedolaeth, fel gwasanaethau sgrinio a Dim Smygu Cymru, ddulliau sefydledig o gael ac asesu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ond nid yw bob amser yn amlwg sut y caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio er mwyn llywio gwasanaethau neu asesu perfformiad sefydliadol.

**47.** Mae trefniadau corfforaethol clir ar waith i reoli pryderon a dysgu oddi wrthynt, ynghyd ag ymrwymiad clir i ddysgu gwersi. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n weddol dda â gofynion *Gweithio i Wella* ac mae'r cyfrifoldeb am reoli pryderon a dysgu oddi wrthynt wedi'i gadw'n ganolog sy'n sicrhau lefel dda o oruchwyliaeth gorfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu oddi wrth bryderon ac anogir staff i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau. Mae aelodau'r bwrdd yn hyderus bod gan yr Ymddiriedolaeth hanes o annog staff i nodi pryderon a digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt. Mae aelodau staff hefyd yn hyderus y caiff camau eu cymryd i unioni pethau. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Rheoli Risg wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn ganolbwynt ar gyfer casglu a rhannu gwersi sy'n deillio o bryderon a digwyddiadau.

**48.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn atgyfnerthu diwylliant y gweithle er mwyn creu amgylchedd lle gall staff godi pryderon, rhannu gwersi i'w dysgu ac awgrymu syniadau ar gyfer gwella. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau i staff o bob rhan o'r sefydliad awgrymu syniadau, codi pryderon neu ystyried goblygiadau Adroddiad Francis ar gyfer eu gwaith ac ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir. Sefydlwyd fforwm hefyd lle gall staff nyrsio a bydwreigiaeth o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth rannu syniadau a sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cyrraedd a'u cynnal. Mae penodiad y Cyfarwyddwr Nyrsio hefyd yn golygu y gall nyrsys a bydwragedd yr Ymddiriedolaeth gyfeirio pryderon proffesiynol at lefel uwch.

**49.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu straeon staff y gellir eu rhannu â'r Bwrdd, a fyddai'n sicrhau y gall staff sydd ar wasgar yn ddaearyddol godi pryderon â'r Bwrdd. Er bod natur busnes yr Ymddiriedolaeth yn ei gwneud hi'n anodd i swyddogion gweithredol ac anweithredol gynnal ymweliadau a gynlluniwyd ac ymweliadau dirybudd rheolaidd er mwyn gweld profiadau staff yn uniongyrchol, mae'r Bwrdd wedi cymryd camau cadarnhaol i deithio a chwrdd â staff mewn gwahanol rannau o'r Ymddiriedolaeth ac mewn lleoliadau gwahanol.

### Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn chwarae rôl graffu effeithiol fel rhan o fframwaith sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth nawr atgyfnerthu ei dull o nodi risgiau is-adrannol a datblygu'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ymhellach

**50.** Cafodd rôl y Grŵp Rheoli Risg o ran ansawdd a diogelwch ei hatgyfnerthu drwy sicrhau bod cylch gwaith y grŵp yn adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â risgiau i ansawdd a diogelwch ac egluro rôl y grŵp wrth hyrwyddo dysgu. Dywed aelodau'r bwrdd eu bod o'r farn y cânt wybod am ansawdd gwasanaethau gan amlaf. Fodd bynnag, mae angen adolygu a gwella dull yr Ymddiriedolaeth o nodi a chofnodi risgiau

is-adrannol. Nid yw'n glir a gaiff cofrestrau risg eu hadolygu'n rheolaidd. Mae nifer o risgiau hirdymor nad yw eu sgôr risg wedi newid fawr ddim ac unwaith eto, nid yw'n glir p'un a yw'r rheolaethau a'r camau unioni yn lliniaru'r risgiau hynny'n effeithiol. Nid yw pob risg a nodwyd yn cysylltu'n glir ag amcanion is-adrannol ac mae rhai risgiau wedi cael eu nodi'n anghywir a dylid eu cofnodi fel digwyddiad.

**51.** Mae trefniadau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn darparu'r gwaith craffu a herio sydd ei angen fel rhan o'r fframwaith sicrwydd bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn llunio adroddiadau amserol ac yn tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion arwyddocaol a ystyrir. Caiff y Pwyllgor ei reoli'n effeithiol ac mae'n gwneud defnydd da o'r wybodaeth a gyflwynir ac yn ceisio gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno.

**52.** Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Datganiad Ansawdd Blynyddol yn brydlon ond gellid datblygu rhywfaint o'r wybodaeth ymhellach. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi trosolwg da o'r systemau a'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith ac yn cydnabod ble y gwelwyd gwendidau. Er mwyn helpu i wneud gwelliannau yn y dyfodol, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut mae'n disgrifio effaith ac effeithiolrwydd y systemau sicrhau ansawdd hyn, mewn ffordd sy'n ystyrlon i'r cyhoedd, ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau, yn ogystal â'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ogystal, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adlewyrchu profiadau defnyddwyr gwasanaethau a sut mae'r wybodaeth hon wedi helpu i wella a llywio datblygiadau i wasanaethau.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll

**53.** Ymarfer paru data sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac fe'i cynhelir bob dwy flynedd. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

**54.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2012. Cafodd y data eu paru a chyhoeddwyd y canlyniadau i'r cyrff dan sylw ym mis Ionawr 2013.

**55.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter, gan ymchwilio i fwy na'r parau data a argymhellir a ddaw i law drwy ymarfer paru data'r Fenter. Ni nodwyd unrhyw gamgymeriadau na thwyll yn ystod ymchwiliadau'r Ymddiriedolaeth.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i wneud gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i wneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu a datblygu'r sefydliad

**56.** Y llynedd, adroddais nad oedd trefniadau cynllunio'r gweithlu wedi newid fawr ddim am nad oedd y galw am adnoddau iechyd y cyhoedd wedi'i adlewyrchu'n llawn yng nghynlluniau cyflawni strategol yr Ymddiriedolaeth. Eleni, gwelais fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da.

**57.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ei strategaeth pum mlynedd, gan leihau nifer yr amcanion. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd yn well â chynlluniau cyflawni strategol tair blynedd ac mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn rhan amlwg o'r cynlluniau hyn. Bu'n rhaid i gyfarwyddwyr a rheolwyr is-adrannau nodi goblygiadau'r cynlluniau tair blynedd o ran y gweithlu (a'u goblygiadau ariannol). Er nad yw ar waith eto, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y gall ddefnyddio'r wybodaeth i lunio cynllun gweithlu cadarn.

**58.** Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o sesiynau 'Dweud eich Dweud' yn 2012 fel rhan o raglen i ddatblygu'r sefydliad. Gofynnodd staff am gysylltiadau cliriach rhwng y blaenoriaethau strategol a'u gwaith eu hunain ac mae'r diwygiadau i'r strategaeth yn helpu i amlygu'r cysylltiadau hyn ochr yn ochr â'r cylch diweddaraf o hyfforddiant arfarnu.

**59.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â chanfyddiadau arolwg staff y GIG, gan ddrafftio cynllun gweithredu y gallai staff wneud sylwadau arno. Mae hefyd wedi cysoni'r camau gweithredu â'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r themâu a gododd o'r gweithdai 'Dweud eich Dweud'. Mae amserlenni cyflawni clir a chaiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd.

**60.** Dangosodd gweithdai 'Dweud eich Dweud' ac arolwg staff y GIG fod datblygu rheolwyr yn wendid. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac atgyfnerthu gallu rheoli ac arwain, gan ddechrau drwy bennu disgwyliadau clir o'r hyn y mae rheoli ac arwain yn ei olygu i'r Ymddiriedolaeth.

**61.** Mae gweithdai 'Dweud eich Dweud' wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymdrin â'i strategaeth safleoedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ad-drefnu ei hystad, yr etifeddodd y rhan fwyaf ohoni gan ei chyrff rhagflaenol, er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben, yn gost-effeithiol ac yn helpu staff i weithio mewn ffyrdd newydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol.

### Mae fy adolygiadau o'r trefniadau rheoli yn yr is-adrannau sgrinio a microbioleg wedi canfod bod nifer o feysydd y gellid eu gwella

**62.** Mae llinellau atebolrwydd yn yr is-adran sgrinio a'i rhaglenni sgrinio yn rhy gymhleth ac yn defnyddio gormod o adnoddau, a fydd yn anghynaliadwy yn y dyfodol. Er bod llinellau atebolrwydd clir i'w gweld yn strwythur uwch reoli'r is-adran, mae angen mwy o eglurder ynghylch rôl y cyfarwyddwr y tu allan i'r Ymddiriedolaeth. Mae cyfrifoldebau

sy'n gorgyffwrdd rhwng strwythurau cyflawni rhaglenni hefyd yn cymylu llinellau atebolrwydd a gellid eu symleiddio.

**63.** Er bod perfformiad, ansawdd a risg yn cael eu monitro'n effeithiol yn yr is-adran sgrinio, caiff y trefniadau hyn eu dyblygu'n aml ac maent yn rhy gymhleth. Mae cynlluniau gweithlu yn nodi'r prif heriau ond nid oes digon o gysondeb rhwng cynlluniau busnes ar draws yr is-adran a gellid gwneud mwy i feincnodi costau ar draws rhaglenni cyfredol.

**64.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi meddu ar weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau microbioleg ers cryn amser ond dim ond yn ddiweddar y datblygwyd cynlluniau manwl i gyflawni'r weledigaeth hon. Nid yw labordai microbioleg wedi'u trefnu fel un gwasanaeth eto, sy'n golygu nad yw'r trefniadau cyfredol yn cefnogi'r newidiadau gwasanaeth angenrheidiol ac nid yw'r trefniadau i fonitro perfformiad a gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigonol.

**65.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd a byddaf yn monitro cynnydd yn erbyn y rhain fel rhan o'm rhaglen archwilio yn yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2013 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Drefniadau Rheoli yn yr Is-adran Sgrinio | Ionawr 2013 |
| Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer data wrth gefn | Medi 2013 |
| Adolygiad o Drefniadau Rheoli yn yr Is-adran Microbioleg | Tachwedd 2013 |
| Asesiad Strwythuredig 2013 | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 | Mawrth 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £142,700 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk